Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol 2016-17

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol 2016-17

Cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7(4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin, 13 Gorffennaf 2017

HC275

OGL

© Hawlfraint y Goron 2017

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications
Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ, ISBN Print 9781474145954

ISBN Gwe 9781474145961

ID 31051722 07/17

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf
Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Rôl y Cyfarwyddwr | 3 |
| Proses a Strwythur Gwneud Penderfyniadau | 6 |
| Atebolrwydd | 10 |
| Ystadegau | 11 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 12 |
| Casgliad | 12 |

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol am 2016-17

Crëwyd fy rôl fel Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Mae'n cynnwys gwneud penderfyniadau ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Gan y Cyfarwyddwr y mae cyfrifoldeb llwyr dros achosion unigol, gan sicrhau fod y penderfyniadau a wneir yn y maes hwn yn annibynnol ar Lywodraeth.

Bûm yn dal y rôl hon ers 1 Ebrill 2016, sef yr adeg yr ymgymerais â rolau Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed ar ran y Cyfarwyddwr ac yn cynnwys penderfyniadau a wnaed a'r prosesau a ddilynwyd.

Eleni cafwyd nifer o ddiwygiadau rheoleiddio a oedd yn effeithio ar gyllido cymorth cyfreithiol sifil ac a nodir yn yr adroddiad. Mae enghreifftiau o newidiadau o'r fath yn cynnwys gofynion o ran achosion trais domestig neu achosion cam-drin plant, ôl-ddyddio cymorth cyfreithiol mewn achosion cyfryngu teuluol a'r trothwy 'rhagolygon o lwyddiant' ar gyfer cyllid.

Credaf fod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn parhau i ddangos hyblygrwydd mawr yn y modd y mae'n ymateb i newidiadau cyfreithiol a rheoleiddiol, gan ar yr un pryd ddiogelu rôl y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol.

Shaun McNally
Y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol
11 JGorffennaf 2017

# Cyflwyniad

1. Caiff y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ("Y Cyfarwyddwr") ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor dan adran 4 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ("Deddf LASPO"). Rôl y Cyfarwyddwr yw gwneud penderfyniadau ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

2. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithredu'n annibynnol ar yr Arglwydd Ganghellor ac mae prosesau a strwythurau mewnol clir yn eu lle yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ("LAA") i sicrhau y caiff yr annibyniaeth hon ei chynnal. Nodir y rhain yn fwy manwl yn yr adroddiad hwn.

3. Yn ymarferol, mae llawer o'r swyddogaethau a weithredir gan y Cyfarwyddwr yn cael eu dirprwyo i'r LAA. Daeth yr LAA i fodolaeth ar 1 Ebrill 2013 ac mae'n un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yr oedd hyn yn dilyn diddymu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Corff Cyhoeddus Anadrannol a noddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a oedd yn flaenorol yn gwneud penderfyniadau ar ddarparu cymorth cyfreithiol mewn achosion unigol.

4. Caiff y Cyfarwyddwr gefnogaeth Bwrdd yr LAA wrth sicrhau bod arferion cadarn yn eu lle i gynnal annibyniaeth y broses o wneud penderfyniadau yng nghyswllt dyfarnu cymorth cyfreithiol.

5. Caiff yr un person ddal rolau Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr yr LAA. Fodd bynnag, mae trefniadau gwahanol o ran atebolrwydd ac adrodd yn bodoli ar gyfer y ddwy rôl. O 1 Ebrill 2016 bu Shaun McNally yn dal y ddwy rôl.

6. Mae'r adroddiad yn esbonio sut y mae'r Cyfarwyddwr wedi cyflawni'r swyddogaethau a roddwyd yn ei ofal dan Ddeddf LASPO dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r LAA yn cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol a'i Chyfrifon ar wahân, sy'n cwmpasu cylch gorchwyl ehangach y sefydliad.

# Rôl y Cyfarwyddwr

7. Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol sifil a throseddol fel y nodir yn Rhan 1 Deddf LASPO.[1]

8. Dan Ddeddf LASPO, caiff yr Arglwydd Ganghellor gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r Cyfarwyddwr ynghylch sut i gyflawni ei swyddogaethau, ond ni chaiff yr Arglwydd Ganghellor gyhoeddi canllawiau o'r fath yng nghyswllt ceisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd a rhaid iddo ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd yn ogystal â gweithredu'n unol â Deddf LASPO a'r fframwaith rheoleiddiol cysylltiedig.

9. Nid yw'r Arglwydd Ganghellor wedi cyhoeddi unrhyw ddogfennau canllaw newydd yn 2016-17.

10. Diweddarodd yr Arglwydd Ganghellor ei chanllawiau (dan adran 4 Deddf LASPO):

    - I ystyried diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) ym mis Gorffennaf 2016. Yr oedd y rheoliadau hyn yn diwygio'r categorïau 'rhagolygon o lwyddiant' a chyfeirir atynt isod.

11. Mae'r fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol hefyd wedi gweld y newidiadau canlynol yn 2016-17:

    - Aeth y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) (Diwygiad) 2016 ati i ddiwygio rheoliad 33 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) 2012. Mae cyllid ar gyfer y rhan fwyaf o achosion cyfraith teulu yn parhau i fod ar gael pan fo'r mater yn ymwneud â thrais domestig neu gam-drin plant, a rhaid darparu tystiolaeth benodol cyn y gall cyllid gael ei ddyfarnu. Yr oedd y diwygiad hwn yn ei gwneud yn haws cael gafael ar y dystiolaeth angenrheidiol drwy ymestyn y cyfnod pryd yr oedd tystiolaeth o'r fath yn parhau'n ddilys o 24 i 60 mis a thrwy gyflwyno math newydd o dystiolaeth cymhwyso lle bo'r cam-drin domestig yn ymwneud â materion ariannol. Gwnaed y diwygiad hwn yn dilyn penderfyniad y Llys Apêl yn R *(ar gymhwyso Hawliau Menywod) v (1) yr Arglwydd Ganghellor (2) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder [2016] EWCA Civ 91* ac yn dilyn ymgynghori gyda rhanddeiliaid. Hefyd cafodd y diffiniad o 'waharddeb amddiffyn' ei ymestyn i gynnwys gorchmynion gwarchod rhag anffurfio organau cenhedlu menywod a gorchmynion troseddwyr treisgar..
    - Bu i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol (Gweithdrefnau) (Diwygiad) (Rhif 2) 2016 ychwanegu rheoliad newydd i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) 2012 gan ganiatáu ôl-ddyddio cymorth cyfreithiol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol yn ymwneud â chyfryngu teuluol mewn rhai amgylchiadau penodol.

1 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/part/1/enacted

- Bu i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil a Throseddol (Cymhwysedd Ariannol a Chyfraniadau) (Diwygiad) 2016 ddiwygio rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 a Deddf LASPO sy'n ymdrin â chymhwysedd ariannol a chyfraniadau tuag at gymorth cyfreithiol gan unigolyn, gan ychwanegu at y rhestr o daliadau sydd i'w diystyru i ddibenion cyfrifo incwm. Yr oedd y diwygiadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau yn barod ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol i Ogledd Iwerddon, ymhellach i Orchymyn Diwygio Lles (Gogledd Iwerddon) 2015, Gorchymyn (Cychwyn Rhif 3) 2016; a thrwy hyn sicrhau bod y rhai sy'n derbyn y budd-daliadau hyn yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu trin yr un fath â'u cyfatebwyr yng Nghymru a Lloegr.[2]

- Dilynodd y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) (Diwygiad) 2016 benderfyniad y Llys Apêl yn *(1) Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (2) yr Arglwydd Ganghellor v IS (unigolyn a warchodir gan ei gyfaill cyfreitha, Y Cyfreithiwr Swyddogol) [2016] EWCA Civ 464* (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "IS"). Clywyd yr achos hwn ar 21 a 22 Mawrth 2016 a chyflwynwyd y dyfarniad ar 20 Mai 2016. Yr oedd y rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod 2013 i gael gwared â'r categori rhagolygon "gwael iawn" o lwyddiant ac yn diwygio'r diffiniad o ragolygon "gwael" o lwyddiant i olygu achos gyda llai na 45% o siawns o gael canlyniad llwyddiannus.

- Creodd hefyd gategori "ymylol" o ran rhagolygon am lwyddiant, gan olygu achos gyda 45% neu fwy o siawns, ond llai na 50% o siawns. Er gwaethaf y penderfyniad yn IS ei fod yn gymesur i gynllun cymorth cyfreithiol bennu trothwy llwyddiant o 50% aeth y diwygiad ychydig ymhellach. Gwnaeth ddarpariaeth y caiff y meini prawf eu cwrdd (a) os bydd y Cyfarwyddwr yn fodlon fod y rhagolygon ar gyfer llwyddiant yn "gymedrol", "da" neu "dda Iawn" neu (b) lle bo'r rhagolygon yn "ffiniol" neu "ymylol" a bod yr achos o "ddiddordeb sylweddol ehangach i'r cyhoedd" neu o bwysigrwydd aruthrol i'r unigolyn". Bydd rhai mathau o achosion hefyd yn cwrdd â'r meini prawf rhagolygon o lwyddiant gyda rhagolygon "ffiniol" neu "ymylol" os yw sylwedd yr achos yn ymwneud â thorri hawliau dynol yr ymgeisydd. Bydd mathau eraill o achosion gyda rhagolygon o'r fath yn cwrdd â'r meini prawf "rhagolygon o lwyddiant" yn awtomatig. Fodd bynnag, lle bo'n berthnasol, nid oes modd ariannu achosion yr aseswyd bod ganddynt ragolygon "gwael" o lwyddo. Mae'r newidiadau hyn yn berthnasol i Gyllid Achosion Eithriadol ("ECF") a cheisiadau sifil o fewn y cwmpas.

2 Bu Credyd Cynhwysol yn fudd-dal a awdurdodwyd yng Nghymru a Lloegr ers 2013. Mae Taliadau Annibyniaeth Personol yn daliadau a gaiff eu diystyru

- Mae'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cydnabyddiaeth a Thâl Statudol (Diwygiad) 2016 yn diwygio'r (Rheoliadau) Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cydnabyddiaeth) (Rheoliadau) 2013 a'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl Statudol) 2013. Yr oedd y diwygiadau o ganlyniad i gychwyn y Contract Sifil Safonol 2015 (Budd-daliadau Lles) ar 1 Tachwedd 2016. Mae'r Contract hwnnw'n llywodraethu rhai trefniadau penodol a wnaed dan Ddeddf LASPO ynghylch darparu gwaith wyneb yn wyneb yn y Categori Budd-daliadau Lles. Mae'r diwygiadau hyn yn cyfeirio at y Contract newydd fel bo angen i sicrhau bod y trefniadau presennol ar gyfer cydnabod y gwasanaethau hynny ac eithrio rhai costau sifil o'r tâl statudol yn parhau'n berthnasol.[3]

- Bu i'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) (Diwygiad) 2017 ddiwygio Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefnau) 2012 i ganiatáu i'r Cyfarwyddwr hepgor y gofyniad i wasanaethau dan gymorth cyfreithiol gael eu darparu gan ddarparwr dan gontract yng nghyswllt cwest, mewn rhai amgylchiadau penodol. Pan fyddir yn hepgor,gallai fod yn amodol ar y darparwr arfaethedig yn ymuno mewn contract achos unigol gyda'r Arglwydd Ganghellor, a gall penderfyniadau o'r fath hefyd gael eu hôl-ddyddio

12. Er nad oes gan yr Arglwydd Ganghellor unrhyw rôl o ran penderfyniadau cyllido unigol, caiff cyfarfod blynyddol hefyd ei drefnu i drafod gweithredu swyddogaethau'r swydd. Mae hyn i gynnwys trafod unrhyw themâu sydd wedi dod i'r amlwg ynghylch rôl y Cyfarwyddwr, y cynllun cymorth cyfreithiol a'r gwersi a ddysgwyd. Cynhaliwyd cyfarfod eleni ar 27 Ebrill 2017. Trafodwyd y pynciau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

3 Mae'r tâl statudol yn gyfeiriad at y tâl ar unrhyw eiddo a gaiff ei adennill neu ei gadw o ganlyniad i ddarparu cymorth cyfreithiol yng nghyswllt unrhyw ddiffyg i'r gronfa cymorth cyfreithiol yn unol ag adran 24 Deddf LASPO

# Proses a Strwythur Gwneud Penderfyniadau

13. Caiff penderfyniadau ar achosion a swyddogaethau'r Cyfarwyddwr eu dirprwyo i'r LAA. Yn benodol, gwneir y penderfyniadau hyn gan y Gyfarwyddiaeth Rheoli Achosion. Rhennir y Gyfarwyddiaeth yn dri grŵp, pob un dan reolaeth Dirprwy Gyfarwyddwr:

- Rheoli Achosion Sifil
- Rheoli Achosion Troseddol
- Tîm Achosion Eithriadol a Chymhleth ("ECCT"). Dyma grŵp newydd sy'n gyfuniad o'r cyn Dîm Sifil Cost Uchel, y Tîm Cyllido Achosion Eithriadol a'r Tîm Mewnfudo a Cheiswyr Lloches Cenedlaethol a ddaeth yn weithredol o 1 Tachwedd 2016.

14. Mae Rheoli Achosion Sifil yn cynnwys teilyngdod cyfreithiol, achosion teulu cost uchel, modd, cyllid sifil, timau rheoli cofnodion a chefnogaeth busnes canolog yn ogystal â thîm penodol ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid. Mae'r defnydd gorfodol o'r System Rheoli Cleientiaid a Chost ("CCMS") wedi sicrhau bod pob tîm yn gweithio'n ddigidol a bellach caiff 85% o geisiadau a biliau eu prosesu o fewn 10 diwrnod gwaith.

15. O fewn Rheoli Achosion Troseddol crëwyd yr Uned Achosion Troseddol a unodd y Tîm Troseddau Cost Uchel gyda'r Tîm Trethu Cenedlaethol ar 1 Medi 2016. Mae'r tîm hwn yn ymdrin ag achosion troseddol cost uchel, paratoadau arbennig, asesu hawliadau dan y Ddeddf Enillion Troseddau a hawliadau o'r Gronfa Ganolog.

16. Mae'r ECCT yn ymdrin ag achosion sifil mwy costus a chymhleth sy'n cael eu hariannu gan yr LAA yn ogystal ag achosion mewnfudo ac eithrio'r rhai sy'n cael eu hariannu drwy waith a reolir.

17. Mae ECT bellach yn dod dan yr ECCT. Mae'r cynllun ECF yn cwmpasu pob cais y tu allan i gwmpas cyllid cymorth cyfreithiol sifil arferol dan Ddeddf LASPO. Fel y nodir yn adran 10 Deddf LASPO, mae ECF yn berthnasol lle byddai methiant i ddarparu cymorth cyfreithiol yn golygu torri, neu lle bo perygl sylweddol o dorri'r canlynol:

a) hawliau'r unigolyn dan y Confensiwn (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998); neu

b) unrhyw hawliau sydd gan yr unigolyn o ran darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol yn ymwneud â hawliau'r UE y gellir eu gorfodi.

18. Rhaid ystyried ceisiadau ECF ar sail unigol, yng ngoleuni'r ffeithiau, y gofynion statudol o ran cyllid a chan ystyried y canllawiau ar ECF a chyfraith achosion. Gall ceisiadau gael eu gwneud yn uniongyrchol gan ymgeiswyr, ac weithiau gwneir hynny, Mewn gwirionedd, cafodd gweithrediad y system gyfan ei herio gan IS ac, yn wreiddiol, penderfynodd yr Anrhydeddus Mr Ustus Collins o blaid yr Hawlydd mewn penderfyniad dyddiedig 15 Gorffennaf 2015. Fodd bynnag, fel y nodir isod (gweler *Ymgyfreitha*) cafodd y penderfyniad ei wrthdroi gan y Llys Apêl..

19. Er mwyn sicrhau y caiff deddfwriaeth cymorth cyfreithiol a chanllawiau a osodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor eu cymhwyso'n gyson, parhawyd i ddarparu cyngor a hyfforddiant i holl weithwyr achos LAA, wedi'i deilwra yn ôl swyddogaeth benodol pob aelod o'r tîm gwaith achos.

20. I sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud yn annibynnol ac yn gyson, ceir nifer o fecanweithiau ar gyfer adolygu. Darperir cyngor cyfreithiol i'r Cyfarwyddwr gan y Tîm Cyfreithiol Canolog sy'n cynnwys cyfreithwyr a gyflogir gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, ond wedi'u neilltuo a'u cyd-leoli o fewn yr LAA, ac sy'n gweithredu ar ran yr LAA yn unig wrth ymarfer swyddogaethau'r Cyfarwyddwr neu swyddogaethau cymorth cyfreithiol gweithredol yr Arglwydd Ganghellor.

21. Caiff penderfyniadau ar achosion unigol eu dirprwyo i weithwyr achos gyda'r cyfle i'w huwchgyfeirio os bydd angen. Mae hyn yn cynnwys mecanwaith cyfeirio ar gyfer materion proffil uchel sy'n cynnwys achosion sy'n symud ymlaen i'r Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys. Mae'r broses hon o gyfeirio ac uwchgyfeirio yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol i'r Cyfarwyddwr bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn rhai cyfreithiol.

## Apeliadau ac Adolygiadau

22. Mae pob penderfyniad a wneir gan y Cyfarwyddwr yn destun hawl i adolygiad mewnol pan wneir cais am hynny. Hefyd, oni fo'r cais yn un am ECF, neu fod y Cyfarwyddwr yn penderfynu nad yw'r achos o fewn cwmpas Deddf LASPO, mae hawl pellach i apelio i Ddyfarnwr Cyllido Annibynnol ("IFA") a fyddai'n gyfreithiwr neu fargyfreithiwr o bractis preifat. Mae IFA yn aelodau o Banel Adolygu Apeliadau Cyllido a Chostau ("FCARP"). [4]Nid yw aelodau'r Panel yn gyflogedig gan yr LAA ac maent yn gweithredu'n annibynnol. Mae ystadegau ar niferoedd a chanlyniadau apeliadau yn cael eu cynnwys ym mhob rhifyn blynyddol o'r bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol, gyda'r ffigurau am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2017 yn cael eu cyhoeddi ar 29 Mehefin 2017.

23. Mae penderfyniad yr IFA ar rai materion penodol yn clymu'r Cyfarwyddwr. Y rhain yw: unrhyw asesiad o ragolygon llwyddiant achos, os yw'r mater yn un o bwys mawr i'r cleient, cymhareb cost-budd yr achos a rhyddhau neu ddiddymu ar sail ymddygiad cleient. Caiff materion eraill eu cyfeirio'n ôl at y Cyfarwyddwr i'w hailystyried. Bydd rhai aelodau o'r panel yn ystyried apeliadau yn erbyn asesiad dros dro o gostau gan staff yr Asiantaeth.

4 Cynhaliwyd proses recriwtio yng ngwanwyn 2016, y cyntaf i ddod dan God y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Yn dilyn tynnu rhestr fer a chynnal cyfweliadau, ymgymerodd aelodau'r panel â'u penodiadau'n ffurfiol o 1 Gorffennaf 2016 am dymor o ddwy flynedd. Cynhaliwyd digwyddiad cynefino a hyfforddi yn Llundain ar gyfer y panel newydd. Mae FCARP bellach yn cynnwys 107 o gyfreithwyr a bargyfreithwyr.

24. Ceir hefyd Banel Adolygu Rheolaethau Arbennig ("SCRP") sydd, pan gynullir ef yn cynnwys tri aelod arbenigol o FCARP sy'n ystyried apeliadau'n ymwneud â rhai achosion cost uchel ac achosion eraill mwy cymhleth. O fewn yr FCARP ceir 22 aelod SCRP.

25. Os bydd cleient yn anfodlon gyda'r penderfyniad terfynol yn dilyn adolygiad a/neu apêl, yna yr unig lwybr sydd ar ôl yw ymgyfreitha.

## Ymgyfreitha

26. Gall penderfyniadau'r Cyfarwyddwr gael eu herio drwy wneud cais am adolygiad barnwrol. Yn ystod 2016-17 y penderfyniad amlycaf oedd *IS [2016] EWCA Civ 464*. Yr oedd yr achos IS yn ymwneud â her i weithrediad yr holl gynllun ECF, yn ogystal â'r rheoliadau teilyngdod a'r canllawiau a osodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor. Penderfynodd yr Anrhydeddus Mr Ustus Collins yn wreiddiol fod y cynllun ECF, fel yr oedd yn cael ei weithredu, yn achosi risg annerbyniol na fyddai modd i unigolyn gael cymorth cyfreithiol pryd y byddai methiant i'w ddarparu yn golygu torri hawliau'r unigolyn hwnnw, a chanfu hefyd bod y rheoliadau teilyngdod a chanllawiau'r Arglwydd Ganghellor yn anghyfreithlon. Anghytunodd y Llys Apêl (yr Arglwydd Ustus Briggs yn barnu i'r gwrthwyneb) a phenderfynwyd fel a ganlyn yn yr achos hwnnw:

- Nad oedd y cynllun ECF yn annheg yn ei hanfod nac yn systematig.
- Yr oedd y rheoliadau'n gyfreithlon. Roeddynt yn cynnig dull gweithredu cytbwys a chymesur yng nghyswllt dyfarnu cymorth cyfreithiol, na ellid ei gondemnio fel un mympwyol. Manylwyd yn ofalus ar y meini prawf teilyngdod a chafodd eithriadau eu hamlinellu'n ofalus. Yr oedd gweithdrefn adolygu fewnol yn bodoli, ac yr oedd adolygiad barnwrol hefyd ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.
- Nid oedd paragraff 8 y canllawiau, a oedd yn cyfeirio at adnoddau prin yn cael eu hailgyfeirio i ganolbwyntio ar yr achosion â'r flaenoriaeth uchaf, yn cyfyngu ar ddyfarnu cymorth cyfreithiol i achosion o'r fath. Beth bynnag, yr oedd yn un o fwriadau cyfreithlon Deddf LASPO y dylai argaeledd gwasanaethau cyfreithiol sifil fod yn gyfyngedig i achosion y barnwyd eu bod yn yr angen mwyaf.

Wedi hynny gwnaed cais am ganiatâd i apelio i'r Goruchaf Lys ac fe'i gwrthodwyd. Yng ngoleuni'r penderfyniad hwnnw, fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, cafodd y rheoliadau eu newid.[5]

5 http://legislation.data.gov.uk/uksi/2016/781/made/data.html

27. Penderfyniad ECF arall a achosodd beth diddordeb oedd achos *Sherlett Thompson v Y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol [2017] EWHC 230 (Gweinyddol)*. Gwnaeth yr Hawlydd gais am adolygiad barnwrol o wrthodiad y Cyfarwyddwr i ddyfarnu ECF. Gwnaeth gais am gymorth cyfreithiol mewn perthynas ag apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad Ysgrifennydd Gwladol Yr Adran Gartref i beidio â diddymu gorchymyn allgludo. Derbyniodd y cyfarwyddwr bod hawliau'r Hawlydd dan Erthygl 8 ECHR yn berthnasol, ond nid oedd yn derbyn fod y materion cyfreithiol a gododd yn ei hachos hi yn arbennig o gymhleth. Daeth i'r casgliad, i ddibenion adran 10(3)(a) Deddf LASPO, nad oedd yn ymddangos ei fod yn achos lle yr oedd ei hawliau hi dan Erthygl 8 yn golygu fod yn rhaid iddi gael cynrychiolaeth yn cael ei dalu amdano gan y wladwriaeth, na bod risg digonol, i ddibenion adran 10(3)(b) y byddai ei hawliau yn cael eu torri be na fyddai cyllid yn cael ei ddyfarnu. Gwrthododd y llys hawliad yr Ymgeisydd a chytunodd gyda dull gweithredu'r Cyfarwyddwr o ran y prawf ECF yn yr achos hwn. Yn benodol penderfynodd y llys nad yw Erthygl 8 yn ei gwneud yn ofynnol darparu ECF er mwyn gwella'r rhagolygon i apêl yr Hawlydd lwyddo.

28. Thema arall sydd wedi codi eleni yw cymhwyso'r tâl statudol. Mae hyn yn berthnasol pan fo person sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn adennill arian neu eiddo yn yr achos ond nad yw holl gostau eu cymorth cyfreithiol yn cael ei dalu gan yr ochr arall. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr arian neu'r eiddo yn destun y tâl statudol er mwyn adennill y costau hynny.[6]

29. Bu i'r achos cyntaf, er ei fod dan y darpariaethau a oedd mewn grym cyn Deddf LASPO, ystyried disgresiwn mewn rhai achosion i hepgor y tâl statudol lle bo'r achos â 'diddordeb sylweddol ehangach i'r cyhoedd'. Mae'r disgresiwn yn bodoli pan fo'r Cyfarwyddwr wedi gwneud penderfyniad o'r fath a'r Cyfarwyddwr wrth wneud y penderfyniad hwnnw wedi ystyried bod hawlwyr eraill neu hawlwyr posibl a allai gael budd o'r achos.[7]

30. Yn achos *R (ar gais Faulkner) v y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol [2016] EWHC 717* yr oedd yr Hawlydd eisiau i'r Cyfarwyddwr ymarfer ei ddisgresiwn a thrwy hynny hepgor y tâl statudol. Safbwynt y Cyfarwyddwr oedd na allai'r grym i hepgor y tâl fod wedi bod yn berthnasol yn achos Mr Faulkner oherwydd nad oedd ei achos yn gost-effeithiol i'w ariannu goruwch achosion eraill na chawsant eu hariannu (rheoliad 47 y Rheoliadau Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000). Gwrthododd y Llys Apêl yr hawl i Mr Faulkner apelio ar 6 Chwefror 2017 ac mae'n gwneud cais i adnewyddu ei gais ar lafar, a disgwylir iddo gael ei glywed eleni.

31. Yr oedd y darpariaethau trosiannol o'r drefn statudol flaenorol yn golygu y byddai'r Cyfarwyddwr wedi etifeddu'r rôl o ymarfer unrhyw ddisgresiwn i hepgor y tâl statudol a gododd yn yr achos hwnnw. Dan LASPO, ar y llaw arall, eglurir y sefyllfa, sef er bod y rhag-amodau ar gyfer bodolaeth disgresiwn i hepgor y tâl statudol yn dibynnu ar benderfyniadau'r Cyfarwyddwr wrth ddyfarnu cymorth cyfreithiol ar gyfer yr achos, mater i'r Arglwydd Ganghellor fydd ymarfer y disgresiwn.

6 Gweler troednodyn 3 uchod.

7 Atodlen 9 o'r Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Ad-dalu) 2013

# Atebolrwydd

32. Bu'r pwynt ynghylch y rhagamodau ar gyfer y disgresiwn i hepgor y tâl statudol mewn achosion o ddiddordeb sylweddol ehangach i'r cyhoedd yn berthnasol ymhellach yng nghyswllt mater sydd wedi dod yn gynyddol arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf: y posibilrwydd o gymhwyso'r tâl statudol i ddyfarniadau iawndal dan y Ddeddf Hawliau Dynol ("HRA") a wneir o blaid plant a rhieni mewn achosion cyfraith gyhoeddus, o ganlyniad i fethiannau gan awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill sy'n dod i'r amlwg yn ystod neu ar yr un pryd â'r achosion hynny.

33. Mae'r iawndal a dderbynnir gan ddioddefwr y toriad HRA yn debygol o fod yn sylweddol is neu hyd yn oed ddiflannu'n llwyr os bydd costau llawn yr achos teulu cyfraith gyhoeddus yn dod yn dâl statudol ar yr adenilliad, oni orchmynnir i'r awdurdod lleol dalu'r costau hynny. Canfuwyd bod y cwestiwn a oes digon o gysylltiad rhwng yr achos teulu cyfraith gyhoeddus ac adennill iawndal HRA i'r tâl statudol ddwyn i mewn gostau'r achos hwnnw'n llawn, dan adran 25(1) Deddf LASPO, yn dibynnu ar ffeithiau'r achos unigol. Yn *P v A Local Authority [2016] EWHC 2779 (Fam)* cadarnhaodd y llys, wrth ystyried hepgor y tâl statudol, na all y dyfarniad a wnaed gan y Cyfarwyddwr a greodd y gallu i hepgor (sef bod yr achos yn un o ddiddordeb sylweddol ehangach i'r cyhoedd) gael ei wneud ond wrth ddyfarnu cymorth cyfreithiol. Yn benodol, ni allai'r cwestiwn ynghylch a fyddai costau achosion teulu cyfraith gyhoeddus yn gosod tâl ar iawndal HRA ynddo'i hun wneud yr achos hwnnw yn un o ddiddordeb sylweddol ehangach i'r cyhoedd.

34. Ni fu unrhyw newid yn y modd y mae swyddogaethau'r Cyfarwyddwr yn parhau i fod yn agored i graffu cyhoeddus. Rhoddir esboniad isod o'r mecanweithiau sydd yn eu lle sy'n caniatáu craffu ar waith yr LAA ac i bartïon â diddordeb ddal y Cyfarwyddwr yn atebol.

## Cwestiynau seneddol a cheisiadau rhyddid gwybodaeth

35. Gall Aelodau Seneddol ac Arglwyddi gyflwyno cwestiynau seneddol yn holi am waith a wnaed gan y Cyfarwyddwr yng nghyswllt achosion neu unigolion. Yn yr un modd, mae modd i'r cyhoedd gyflwyno ceisiadau am wybodaeth a ddelir gan yr LAA dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

36. Yn 2016-17 derbyniodd yr LAA 20 cais am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 6 chwestiwn seneddol yn ymwneud â'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn benodol. Yr oedd y mwyafrif yn ymwneud ag ECF, ac yr oedd hefyd beth diddordeb yn y broses gyfeirio ar gyfer achosion proffil uchel.

37. Mae gwybodaeth am gleient cymorth cyfreithiol unigol yn debygol o fod yn ddata personol ac ni ellir ei ddatgelu ond pan fo'r achos yn cwrdd â'r meini prawf a nodir hyn yn Neddf Diogelu Data 1998.

# Ystadegau

## Cwynion

38. Bydd yr LAA yn ymchwilio i bob cwyn a dderbynnir ganddo yn drwyadl, gan ddefnyddio trefn gwyno ddwy-haen. Mae'r gŵyn gychwynnol yn rhoi cyfle i'r LAA adolygu'r modd yr ymdriniwyd â'r mater ar lefel leol ac unioni'r sefyllfa os yn bosibl. Os nad yw achwynwr yn fodlon ar yr ymateb cychwynnol, gallant uwchgyfeirio'u cwyn a gwneud cais am adolygiad pellach. Os bydd yr achwynydd yn parhau'n anfodlon gyda'r ymateb yna mae ganddynt hawl i gyfeirio'u cwyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy eu Haelod Seneddol lleol.

39. Nid yw'r LAA yn cofnodi cwynion ar wahân sy'n ymwneud yn benodol â chylch gorchwyl y Cyfarwyddwr. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r holl gwynion a dderbynnir gan yr LAA yn ymwneud ag achosion unigol a phenderfyniadau ar waith achos.

40. Mae'r LAA yn ymdrin â cheisiadau am gymorth cyfreithiol ar draws gwahanol gategorïau cyfraith. Mae'r LAA yn cyhoeddi Ystadegau Cenedlaethol ar niferoedd ceisiadau yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol. Caiff hwn ei gyhoeddi bob chwarter, a chafodd ystadegau'n cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2017, eu cyhoeddi ar lein ar 29 Mehefin 2017.[8] Yn benodol, caiff ystadegau ar nifer y dyfarniadau a wnaed yng nghyswllt gofynion tystiolaeth trais domestig y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol eu cynnwys yn y bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol.

.

8 Gweler https://www.gov.uk/government/collections/legal-aid-statistics

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

41. Mae'r LAA yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus dan adran 149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010.

42. Yn ystod 2016-17 parhaodd yr LAA i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff LAA am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau cyrsiau dysgu'r Gwasanaeth Sifil ar Hanfodion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Rhagfarn Ddiarwybod. Mae disgwyl i bob rheolwr llinell hefyd gwblhau cwrs ychwanegol ar Ymwybyddiaeth o Anabledd.

43. Mae'r LAA yn gofyn i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol ddarparu rhywfaint o wybodaeth am gydraddoldeb personol i ni. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r LAA i ddeall yn well beth yw anghenion ymgeiswyr posibl am gymorth cyfreithiol a chasglu ystadegau am eu hamrywiaeth.

44. Mae'r Cyfarwyddwr wedi adolygu'r wybodaeth cyfle cyfartal a ddarparwyd gan y rhai a dderbyniodd gymorth cyfreithiol yn ystod tri chwarter cyntaf 2016-17 i fonitro i ba raddau y mae'r LAA yn parhau i ddarparu ar gyfer poblogaeth amrywiol Cymru a Lloegr. Cyhoeddodd yr LAA ystadegau yn ymwneud ag amrywiaeth cleientiaid cymorth cyfreithiol dros y cyfnod 2016-17 fel rhan o'r bwletin Ystadegau Cymorth Cyfreithiol ar 29 Mehefin 2017, a bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i adolygu'r wybodaeth hon dros y flwyddyn i ddod.

# Casgliad

45. Mae'r LAA yn parhau i ddangos hyblygrwydd yn y modd y mae'n ymateb i newidiadau cyfreithiol a rheoleiddiol, gan ar yr un pryd ddiogelu rôl y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol.

46. Mae'r Cyfarwyddwr yn nodi bod y Llys Apêl bellach wedi cadarnhau nad oedd gweithrediad y cynllun ECF yn annheg yn ei hanfod nac yn systematig. Mae'r LAA wedi ymrwymo i welliant parhaus wrth weinyddu'r cynllun cymorth cyfreithiol.

47. Anfonwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Arglwydd Ganghellor yn unol ag adran 7 (3) Deddf LASPO. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

ISBN 978-1-4741-4595-4

9 781474 145954